**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg**
**7 Hydref 2024**

## Disgrifiad

1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2024 (“Deddf 2024”) yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”) a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (“Deddf 1992”) i ddarparu ar gyfer nifer o newidiadau i’r system ardrethu annomestig a system y dreth gyngor yng Nghymru. Mae Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024 (“Rheoliadau 2024”) yn darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth sy’n deillio o’r adrannau o Ddeddf 2024 a ddaw i rym ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol (16 Tachwedd 2024) neu ar 1 Ebrill 2025. Maent hefyd yn gwneud nifer bach o ddiwygiadau sy’n weddill i is-ddeddfwriaeth sy’n ganlyniadol i Ddeddfau eraill, ynghyd â dirymu rhai offerynnau statudol a darpariaethau nad ydynt yn cael effaith mwyach.

## Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2. Dim.

## Y cefndir deddfwriaethol

3. Cafodd Deddf 2024 y Cydsyniad Brenhinol ar 16 Medi 2024. Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud yn bennaf o dan bwerau a nodir yn adran 22(1)(a) o Ddeddf 2024, sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy’n ganlyniadol i Ddeddf 2024. Mae Rheoliadau 2024 hefyd yn cael eu gwneud o dan adrannau 47(8), a 50(1) a (3), o Ddeddf 1988, a pharagraff 1 o Atodlen 9 iddi, paragraffau 1(1) a 2(4)(e) o Atodlen 2 i Ddeddf 1992, adran 54(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, adran 173(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac adran 17(2) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023.

4. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf 1988, Deddf 1992 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

5. Mae Rheoliadau 2024 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad negyddol.

6. Mae adrannau 2 a 3 o Ddeddf 2024 yn cyflwyno’r adrannau newydd 41ZA a 52ZA o Ddeddf 1988, sy’n ailddatgan (ynghyd â diwygiadau) ddarpariaethau sy’n ymwneud â llunio rhestrau ardrethu annomestig ar gyfer Cymru. Mae adran 41ZA yn ailddatgan darpariaethau ar gyfer rhestrau ardrethu lleol a nodwyd yn flaenorol yn adran 41 o Ddeddf 1988. Mae adran 52ZA yn ailddatgan darpariaethau ar gyfer rhestrau ardrethu canolog a nodwyd yn flaenorol yn adran 52 o Ddeddf 1988. Mae’r ddwy adran newydd hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal ailbrisiadau ardrethi annomestig bob tair

blynedd a byddant yn dod i rym ddeufis ar ôl i Ddeddf 2024 gael y Cydsyniad Brenhinol.

7. Mae adran 6 o Ddeddf 2024 yn ailddatgan darpariaeth ar gyfer rhyddhad ardrethi annomestig elusennol ar gyfer hereditamentau rhestr ardrethu leol heb eu meddiannu yng Nghymru, ym mharagraff 2 o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988. Mae hefyd yn ychwanegu at yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r rhyddhad fod yn gymwys a bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025.

8. Mae adran 8 o Ddeddf 2024 yn diwygio adran 47 o Ddeddf 1988 fel bod y terfyn amser o chwe mis (ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol) ar benderfyniadau gan awdurdodau lleol i roi rhyddhad ardrethi annomestig yn ôl disgresiwn, neu i'w amrywio, yn cael ei ddileu. Bydd yn dod i rym ddeufis ar ôl i Ddeddf 2024 gael y Cydsyniad Brenhinol.

9. Mae adran 10 o Ddeddf 2024 yn mewnosod Rhan newydd A2 yn Atodlen 7 i Ddeddf 1988, sy'n ailddatgan (ynghyd â diwygiadau) ddarpariaethau (a oedd wedi eu cynnwys yn Rhan 1 o Atodlen 7 yn flaenorol) ar gyfer cyfrifo'r lluosydd ardrethu annomestig yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae adran 10 hefyd yn mewnosod pŵer newydd i Weinidogion Cymru osod lluosyddion gwahaniaethol mewn cysylltiad â disgrifiadau o hereditamentau sydd i'w pennu mewn rheoliadau. Bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025.

10. Mae adran 20 o Ddeddf 2024 yn diwygio adran 22B o Ddeddf 1992 fel na ellir arfer y pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r flwyddyn ar gyfer llunio rhestrau prisio newydd y dreth gyngor mewn perthynas â blwyddyn sy'n hwyrach na 2027 ac mae'n cyflwyno gofyniad i ailbrisiadau'r dreth gyngor gael eu cynnal yn 2028 a phob pum mlynedd wedi hynny. Bydd yn dod i rym ddeufis ar ôl i Ddeddf 2024 gael y Cydsyniad Brenhinol.

11. Mae angen newidiadau canlyniadol i nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth i gyd-fynd â dwyn i rym yr adrannau o Ddeddf 2024 a nodir uchod. At hynny, mae Rheoliadau 2024 hefyd yn rhoi cyfle i wneud nifer bach o ddiwygiadau sy'n ganlyniadol i newidiadau polisi a gyflwynwyd gan Ddeddfau eraill; sef Deddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003"), Deddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 ("Deddf 2007") a Deddf y Dreth Gyngor (Rhestrau Prisio Newydd ar gyfer Lloegr) 2006 ("Deddf 2006").

12. Cafodd Deddf 1988 ei diwygio gan Ddeddf 2003 i ymestyn rhyddhad ardrethi annomestig elusennol rhannol ar gyfer hereditamentau rhestr ardrethu leol a feddiennir a heb eu meddiannu i glybiau chwaraeon amatur cymunedol. Diwygiwyd Deddf 1988 ymhellach gan Ddeddf 2007 i gyflwyno rhyddhad ardrethi annomestig elusennol llawn ar gyfer elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol, sef y trethdalwyr ar gyfer hereditamentau rhestr ardrethu leol heb eu meddiannu. Cafodd darpariaethau perthnasol Deddfau 2003 a 2007 eu diddymu ers hynny, ond mae'r darpariaethau hyn wedi eu hailddatgan ym mharagraff 2 o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988, a pharagraff 2 o Atodlen 4ZB iddi.

13. Diwygiodd Deddf 2006 adran 22B(3)(a) a (b) o Ddeddf 1992 ac effaith hyn oedd cadw'r gofyniad mewn perthynas â llunio rhestr newydd fel yr oedd yn gymwys o ran Cymru, ond wedi ei ailddrafftio yn adran 22B(3).

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

14. Mae Rheoliadau 2024 yn gwneud diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o adrannau 2, 3, 6, 8, 10 ac 20 o Ddeddf 2024, ac i fynd i'r afael â materion sy'n ganlyniadol i Ddeddfau blaenorol, er mwyn sicrhau bod y darpariaethau yn parhau yn effeithiol a bod effeithiau polisi presennol yn cael eu cadw.

15. Daw Rhan 2 o Reoliadau 2024 i rym ar 16 Tachwedd 2024, i gyd-fynd â chychwyn adrannau 2, 3, 8 ac 20 o Ddeddf 2024. Nodir bod 23 o eitemau o'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ofynnol diwygio ynddynt gyfeiriadau at ddeddfwriaeth sylfaenol a ddiwygir gan Ddeddf 2024, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn effeithiol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

<u>Ardrethi annomestig</u>

- Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Canolog) 1989;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990;
- Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992;
- Gorchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) (Cyllid) (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) 1996;
- Rheoliadau Lwfans Ceisio Gwaith 1996;
- Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000;
- Rheoliadau Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002;
- Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2008;
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012;
- Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Gwelliannau) (Cymru) 2023; a

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024.

Y dreth gyngor

- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Lleoliad Anheddau a'u Prisio) 1992;
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Cynnwys Rhestrau Prisio) 1992;
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993; a
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995.

16. Mae rheoliadau 2 i 5, 8, a 12 i 21 o Reoliadau 2024 yn sicrhau bod yr offerynnau statudol perthnasol yn cyfeirio at yr adrannau newydd 41ZA a 52ZA o Ddeddf 1988 (fel y bo'n briodol), sy'n ymdrin â llunio a chadw rhestrau ardrethu annomestig.

17. Mae rheoliadau 6, 7, 9 a 10 o Reoliadau 2024 yn ymwneud â rhestrau prisio'r dreth gyngor. Mae rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Lleoliad Anheddau a'u Prisio) 1992 i sicrhau bod anheddau yn cael eu prisio yn unol â'r dyddiad cywir a'r rhagdybiaethau cysylltiedig. Mae rheoliad 7 yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Cynnwys Rhestrau Prisio) 1992 i sicrhau eu bod yn gymwys i restrau'r dreth gyngor a lunnir yn y dyfodol o dan adran 22B o Ddeddf 1992. Mae rheoliad 9 yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 i ddiweddaru cyfeiriad at ddarpariaeth ddiwygiedig yn Neddf 1992 ac i gyfeirio at adran 22B(3A) a (7A) o Ddeddf 1992 mewn perthynas â llunio rhestrau prisio. Mae rheoliad 10 yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995 o ganlyniad i'r dyletswyddau newydd ar awdurdodau bilio mewn perthynas ag adneuo a chadw rhestrau prisio'r dreth gyngor a gyflwynir gan Ddeddf 2024.

18. Mae rheoliad 11 o Reoliadau 2024 yn hepgor erthyglau 5 a 10 o Orchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) (Cyllid) (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) 1996 ("Gorchymyn 1996") gan nad ydynt yn cael effaith mwyach. Roedd erthygl 5 o Orchymyn 1996 yn pennu effaith rheoliad 4B ac yn diwygio rheoliad 18(1) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993, a ddiddymwyd o ran Cymru gan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2005. Roedd erthygl 10 o Orchymyn 1996 yn diwygio adran 86(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a gafodd ei hepgor wedi hynny gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae rheoliad 11 o Reoliadau 2024 hefyd yn diwygio erthygl 6(8) o Orchymyn 1996, i fewnosod diffiniadau ar gyfer termau a ddiffinnir yn adran 41A o Ddeddf 1988 (sy'n cael ei hepgor gan Ddeddf 2024).

19. Mae rheoliad 22 o Reoliadau 2024 yn dirymu Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) 1989 ("Rheoliadau 1989"), sy'n nodi'r prosesau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth wneud neu ddirymu penderfyniad neu ddyfarniad ynghylch rhoi rhyddhad yn ôl disgresiwn. Mae hyn yn cefnogi bwriad polisi adran 8 o Ddeddf 2024, i ddileu cyfyngiadau gweddilliol ar bwerau eang awdurdodau lleol fel arall i

ddyfarnu rhyddhad yn ôl disgresiwn. Mae rheoliad 22 o Reoliadau 2024 hefyd yn dirymu Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) (Cymru) (Diwygio) 2006, a ddiwygiodd Reoliadau 1989 o ran Cymru, a Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014, a wnaeth ohirio llunio rhestrau ardrethu annomestig o 1 Ebrill 2015 i 1 Ebrill 2017, gan nad yw'r ddau offeryn yn cael effaith mwyach.

20. Daw Rhan 3 o Reoliadau 2024 i rym ar 1 Ebrill 2025, i gyd-fynd â chychwyn adrannau 6 a 10 o Ddeddf 2024 a'r flwyddyn ariannol drethadwy newydd.

21. Mae rheoliad 23 o Reoliadau 2024 yn diwygio rheoliad 3(2) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989. Mae'r diwygiadau yn adlewyrchu'r amgylchiadau ychwanegol pan fydd y swm y bydd y trethdalwr yn atebol i'w dalu yn lleihau i sero, o ganlyniad i ryddhad ardrethi annomestig elusennol llawn ar gyfer hereditamentau rhestr ardrethu leol heb eu meddiannu a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Ddeddf 2007.

22. Mae rheoliad 24 o Reoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990 ("Rheoliadau 1990"). Mae Rheoliadau 1990 yn darparu (ymhlith pethau eraill) fod cydberchnogion a chydfeddianwyr hereditament i'w trin fel pe baent yn atebol ar y cyd ac yn unigol am swm yr ardrethi annomestig a fyddai'n daladwy pe bai un perchennog neu feddiannydd yn unig. Mae'r diwygiadau yn darparu ar gyfer sicrhau cysondeb wrth drin yr elusennau a'r clybiau chwaraeon amatur cymunedol sy'n atebol ar y cyd ac yn unigol mewn cysylltiad â hereditamentau rhestr ardrethu leol a feddiennir a heb eu meddiannu, yn dilyn y newidiadau i ryddhad elusennol a gyflwynwyd gan Ddeddfau 2003 a 2007.

23. Mae rheoliad 25 yn hepgor paragraff 39 o Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) 2007. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach, gan ei bod yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, sy'n cael ei hepgor gan Ddeddf 2024.

24. Mae rheoliad 26 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 i gyfeirio at ddarpariaethau yn y Rhan newydd A2 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf 2024), ar gyfer cyfrifo'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn berthnasol.

25. Mae rheoliad 27 yn hepgor rheoliad 7 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024, er mwyn sicrhau nad yw'r darpariaethau yn rheoliad 3(7) o Reoliadau 1990 (fel y'u diwygiwyd gan reoliad 24 o Reoliadau 2024) ond yn cynnwys diwygiadau a wneir o ran Lloegr.

## Ymgynghori

26. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn cysylltiad â Rheoliadau 2024. Diwygiadau technegol a thestunol sy’n cael eu gwneud yn bennaf gan Reoliadau 2024 i ddiweddaru cyfeiriadau mewn is-ddeddfwriaeth a sicrhau bod yr effeithiau polisi presennol yn cael eu cynnal, o ganlyniad i’r newidiadau polisi a deddfwriaethol a gyflwynir gan Ddeddf 2024 ac a gyflwynwyd gan Ddeddfau blaenorol sy’n ymdrin â materion cysylltiedig. Roedd y newidiadau polisi a gyflwynir gan Ddeddf 2024 yn destun ymgyngoriadau diweddar ar ddiwygio ardrethi annomestig a’r dreth gyngor.

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

27. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer Rheoliadau 2024. Effaith Rheoliadau 2024 yw cadw’r sefyllfa bolisi bresennol drwy sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth y maent yn ei diwygio yn parhau yn effeithiol a’i bod yn gydnaws â bwriad polisi’r newidiadau a gyflwynir gan ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae hyn yn cydymffurfio â’r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.